**Crynodeb o Gofnodion y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth (AAP)**
**Cyfarfod 2 –** Medi 2016
Pafiliwn Llywodraeth Cymru (LlC), Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Powys.

**Yn bresennol**
Lionel Walford – Cadeirydd
Peter Rees – Aelod Annibynnol
Steve Hughson – Aelod Annibynnol
Darren Williams – Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
John Davies – Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
Daryl Williams – UNITE
Ivan Monckton – UNITE
Bridget Henderson – Ymchwilydd gydag UNITE

Kim Howell – Geldards
Helen Snow – Geldards

Gary Haggaty – Llywodraeth Cymru
Paula Whitfield – Llywodraeth Cymru
Adriana Kiss – Llywodraeth Cymru
Medwyn Roberts – Llywodraeth Cymru

**Eitem 1 – Croeso**
Croesawodd y Cadeirydd y bobl a oedd yn bresennol ac amlinellodd yr agenda ar gyfer y diwrnod.

**Eitem 2 – Gwrthdaro buddiannau**
Dywedodd un o'r undebau amaethyddol fod cyflogwyr a chyflogeion yn aelodau. Nodwyd hynny.

**Eitem 3 – Cofnodion cyfarfodydd**
Cymeradwyodd y Panel gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Eitem 4 – Materion yn codi**
Eglurwyd y dylai aelodau o'r Panel a oedd yn dymuno hawlio treuliau anfon eu hawliadau at Reolwr y Panel.

Roedd y Panel yn cytuno bod angen diwygio'r Gorchymyn (gweler paragraffau diweddarach) ac y byddai'r canllawiau ar y Gorchymyn Cyflogau yn cael eu diweddaru a'u hegluro yn unol â hynny.

**Eitem 5** – **Yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant**
Cymeradwywyd cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor. Roedd y Panel yn cytuno y gellid newid y cylch gorchwyl drwy gonsensws os bernid bod hynny'n briodol unwaith y bydd yr Is-bwyllgor yn dechrau ar ei waith.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cynnig cyngor ar sgiliau a datblygu gyrfa ym maes amaethyddiaeth yn un o gyfrifoldebau statudol y Panel. Mynegwyd y farn y dylai gwaith Is-bwyllgor y Panel ar sgiliau a hyfforddiant gyd-fynd â gwaith y Fenter Cyswllt Ffermio ac y dylai hefyd elwa ar y gwaith hwnnw, oherwydd mai dyna un o'r ffyrdd allweddol o roi gwybodaeth i'r diwydiant amaethyddiaeth. Cytunwyd hefyd nad dyma'r unig beth y dylid canolbwyntio arno ac y dylid hefyd gynnwys gwaith y colegau amaethyddol a ffynonellau hyfforddiant eraill er mwyn hwyluso datblygiad ar draws y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth.

Bydd yr Is-bwyllgor am ddatblygu diwylliant o ddysgu ar bob lefel ac ar gyfer pob oedran. Byddai'r Panel yn manteisio ar waith yr Is-bwyllgor wrth ystyried cynigion i foderneiddio ac i ddiweddaru Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Panel awgrymu aelodau ar gyfer yr Is-bwyllgor. Cytunodd y Panel i ystyried enwebu. Cytunodd hefyd y byddai'n gofyn cyngor arbenigwyr priodol yn ôl y gofyn. Awgrymwyd hefyd fod angen gwybodaeth ddiweddar am y Farchnad Lafur (LMI) i lywio gwaith y Panel a'i Is-bwyllgor. Byddai'r wybodaeth honno'n cynnwys arolygon dadansoddi canfyddiadau, a byddai'r Is-bwyllgor yn elwa ar y gallu i gomisiynu'r math hwnnw o waith pan fyddai angen.

Gofynnwyd cwestiwn am yr agweddau cyfathrebu ar y gwaith ar sgiliau ac ynghylch sut y byddai'r wybodaeth yn cael eu rhannu a'u hanfon at ffermwyr a gweithwyr fferm. Aed ati wedyn i gynnal trafodaeth ehangach ar sut i fynd ati i gyfathrebu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid gan ddefnyddio dulliau gwahanol. Awgrymwyd bod angen strategaeth gyfathrebu ar y Panel er mwyn sicrhau na fydd unrhyw randdeiliaid yn cael eu hepgor.

**Eitem 6 – Cyflwyniadau ar Ddiwygiadau Arfaethedig i Orchymyn 2016**

Cydnabuwyd yn ystod y trafodaethau fod y sector yn wynebu cynnydd yng nghost llafur ar adeg o newid mawr, a hynny ar adeg pan fo pob gweithiwr yn wynebu costau byw uwch. Trafodwyd hefyd yr ansicrwydd o ran sut y byddai canlyniad y Refferendwm ar adael yr UE yn effeithio ar y sector, er enghraifft, cyfraddau cyfnewid yn codi a gostwng, newidiadau i gytundebau masnach, a newidiadau o ran gallu dinasyddion i symud yn ddilyffethair etc. Cyfeiriwyd at yr angen i gydymffurfio â chyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Roedd holl aelodau'r Panel, yn gynrychiolwyr cyflogwyr a chyflogeion fel ei gilydd, yn cytuno bod angen i gyflogeion gael eu trin yn y ffordd orau bosibl bob amser gan mai dyna oedd o fudd pennaf i'r sector ac i'r economi.

Cyflwynwyd papurau a oedd yn amlinellu'r ffyrdd a ffefrir o fynd ati i gynnig gorchymyn newydd ar Gyflogau, un ar y cyd gan yr NFU a'r FUW a chynnig manwl gan UNITE. Aed ati wedyn i drafod pob pwynt yn fanwl.

Edrychodd y Panel yn fanwl ar ddiwygiadau posibl i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016. Roeddent yn cynnwys cywiro gwallau teipio yn ogystal â'r darpariaethau ar gyfer gweithwyr hyblyg, goramser, tâl gwyliau, lwfans ar alwad ac isafswm cyfraddau tâl.

Gwnaeth y cynrychiolwyr ar y Panel gynigion ffurfiol ar y diwygiadau ac ar yr isafswm cyfraddau tâl a chyflwynwyd cynigion gwahanol mewn ymateb i hynny. Cafodd y cynigion ar lefelau'r isafswm cyflog eu diwygio yn ystod y trafodaethau.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynigion terfynol ac roedd y mwyafrif o'u plaid. Y cynigion hynny fyddai sail gorchymyn drafft arfaethedig y bwriedid ymgynghori yn ei gylch yn ystod misoedd Medi a Hydref 2016. Cytunwyd y byddai canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Panel cyn i'r cynnig gael ei gyflwyno i'r Gweinidogion yn Llywodraeth Cymru a fyddai'n gyfrifol am wneud y Gorchymyn.

**Eitem 7 – Unrhyw Fater Arall**
Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Panel fynegi barn am y ddogfen Ganllaw a gafodd ei dosbarthu cyn y cyfarfod.

Penderfynwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 24 Hydref. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau ac am ddod i'r cyfarfod.